PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD IAU, 6 HYDREF 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McKerlich(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Dilwar Ali, Howells, Hyde a/ac Simmons |

15 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb, er bod y Cynghorydd Howells wedi rhybuddio'r Cadeirydd y byddai'n hwyr yn cyrraedd.

16 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

17 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2016 a 21 Gorffennaf 2016 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

18 : CYMORTH I FUSNESAU NEWYDD A BUSNESAU ENTREPRENEURAIDD

Croesawodd y Cadeirydd yr Arweinydd, y Cynghorydd Phil Bale, y Rheolwr Polisi Economaidd Jon Day a Warren Fauvel o Cardiff Start i'r cyfarfod.

Cafodd yr aelodau gyflwyniad ar Gefnogaeth i Fusnesau Newydd a Busnesau Entrepreneuraidd; gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau;

- Gofynnodd yr Aelodau faint o weithdai ar ddechrau busnes oedd i'w cael yng Nghaerdydd.
  Doedd gan y swyddogion ddim y wybodaeth i law ond nododd yr arweinydd bod y rhan fwyaf o'r gweithdai i'w cael yn Ne a Gorllewin y Ddinas.

- Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth am yr unedau i fusnesau newydd - beth oedd pris rhent y metr sgwâr, am faint oedd busnes yn cael aros mewn uned a beth oedd maint yr unedau.
  Dywedodd y swyddogion fod y rhent gyda'r isaf ar y sbectrwm, ond y bydden nhw'n dod yn ôl at yr Aelodau gyda dadansoddiad llawn o'r wybodaeth am yr unedau, gan gynnwys yr unedau y tu ôl i Western Avenue.

- Nododd yr Aelodau bod gan Gasnewydd unedau bychain i bobl yn dechrau busnes, a bod modd iddyn nhw wedyn symud i unedau mwy wrth i'w busnesau dyfu, a gofynnon nhw a oedd hyn yn bosib yng Nghaerdydd.
  Cadarnhaodd y swyddogion y byddai busnesau newydd yn cael symud i ofodau mwy wrth iddyn nhw dyfu, ond yn y pen draw y bydden nhw'n cael eu hannog i symud i'w safle eu hunain pan fyddai'r busnesau'n cyrraedd eu llawn dwf.

- Gofynnodd yr aelodau a oedd cymorth technegol ar gael i fusnesau newydd - yr ateb oedd y byddai'r busnesau'n cael eu cyfeirio at Busnes Cymru. Dywedodd yr Arweinydd ei bod hi'n gyffredin yng ngweddill Ewrop i fusnesau gael cymorth o gyfeiriad adrannau Datblygu Economaidd. Ychwanegodd fod y Fargen Ddinesig, Datblygu Economaidd a Chynllunio Strategol bellach yn cael eu gweld drwy lygaid rhanbarthol, a bod Brexit wedi arwain at drafodaethau ar Gronfeydd Ewropeaidd a'r angen i edrych ar fodelau gwahanol.

- Gofynnodd yr Aelodau faint o amser oedd rhaid aros i gael uned i ddechrau busnes; cytunodd Swyddogion i gyflwyno'r wybodaeth hon ar ôl y cyfarfod. Mynegodd yr Aelodau eu pryder nad oedd digon o wybodaeth ar gael yn y cyfarfod.

- O ran y Tramshed, gofynnodd Aelodau a oedd gan y Cyngor unrhyw ddylanwad ar y broses o archebu lle yno; cytunodd y Swyddogion i siarad â'r perchennog/rheolwyr ynglŷn â hyn.

- Gofynnodd yr aelodau am ragor o wybodaeth am Gronfa Cyfalaf Caerdydd. Atebodd y Swyddogion drwy ddweud bod buddsoddiadau ecwiti wedi bod yn llwyddiant a'u bod yn dal i berfformio'n well na'r farchnad; roedden nhw hefyd yn disgwyl i ad-daliadau ar fenthyciadau ychwanegu at y Gronfa dros y flwyddyn nesaf, a bod perfformiad y Gronfa wedi gwella wrth i amser fynd yn ei flaen.
  Nododd yr Aelodau fod cryn dipyn wedi'i gyflawni o'r hyn a fuddsoddwyd, gan ystyried hefyd y gallai problemau godi pe bai'r gronfa'n mynd i lawr a benthyciadau'n cael eu defnyddio yn hytrach. Ateb y Swyddogion oedd y byddai pwysau'n cael ei roi wedyn ar bartneriaid i fuddsoddi. Ychwanegodd yr Arweinydd fod partneriaethau eisoes wedi cael eu datblygu gyda'r diwydiannau creadigol fel S4C, bod modd cael arian o gronfeydd eraill fel y Gronfa Arloesi Gymdeithasol, bod toriadau mawr wedi bod i wasanaethau ac mai'r lleiafswm o staff sydd i'w cael mewn nifer o swyddogaethau, felly bod penderfyniadau wedi gorfod cael eu gwneud ar beth i flaenoriaethu, a bod rhwydweithiau fel Cardiff Start wedi cael eu hadnabod fel rhai allai roi cymorth.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad gan Warren Fauvel o Cardiff Start; fe'u gwahoddwyd gan y Cadeirydd i ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

- Gofynnodd yr Aelodau beth oedd ymwneud Mr Fauvel â'r Cyngor ac fe'u cynghorwyd ei fod yn annibynnol o'r Cyngor, mai ei unig ymwneud â'r Cyngor oedd bod Cardiff Start yn cael ei ariannu'n rhannol ganddo.

- Esboniwyd i'r Aelodau bod Cardiff Start yn darparu mentora, cyngor a chymorth i bobl sy'n sefydlu busnesau.
  Ychwanegodd yr Arweinydd ei fod wedi ymweld â Hyb y sefydlwyr ar y diwrnod y caeodd ac roedd yn sylweddoli bod rhaid cael seilwaith addas yn y Ddinas a bod rhaid ystyried materion fel cyflymder band eang wrth ddatblygu lleoedd yn y dyfodol; bod Caerdydd yn cystadlu ag eraill a bod rhaid iddi gael proffil uchel; felly ei bod yn bwysig i ddatblygu partneriaethau â phrifysgolion ac eraill.

- Gofynnodd yr Aelodau sut i gysylltu â Cardiff Start a'r ateb oedd eu bod yn gymuned o bobl sy'n cynghori a chefnogi ei gilydd, eu bod yn weithgar ar

Facebook, Twitter a bod ganddynt wefan; bod ganddynt hefyd restr fyw o ddigwyddiadau a bod pobl yn aml yn cael eu cyfeirio atynt ar lafar.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion a'r Arweinydd am fynychu'r cyfarfod.

CYTUNWYD – Y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Arweinydd er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

## 19 : PARTNERIAETH YNYS ECHNI

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Bob Derbyshire (Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd), Jon Maidment (Rheolwr Gweithredol Parciau a Chwaraeon) a Natalie Taylor (Arweinydd Tîm) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd hefyd y tystion allanol Cellan Michael (RSPB) a Peter Sampson (Cymdeithas Ynys Echni) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad ac ynddo dywedodd ei fod yn falch i ddod â'r eitem hon gerbron y Pwyllgor, mai'r tro diwethaf i hyn ddigwydd oedd dros dair blynedd yn ôl, ac ers hynny bod cryn gynnydd wedi ei wneud a bod llawer o ddiddordeb yn y pwnc. Roedd Ynys Echni yn cynnig llawer o heriau, roedd angen ei gwarchod a'i gwella ac roedd angen gwella profiad ymwelwyr.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar y diweddaraf am Ynys Echni; gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

- Gofynnodd yr Aelodau a fyddai angen arian cyfatebol ac fe'u cynghorwyd y byddai; cynghorwyd yr Aelodau hefyd bod arian ar gael ar hyn o bryd ar gyfer Ynys Echni o'r dreth dirlenwi.

- Gofynnodd Aelodau beth fyddai'r weledigaeth ar gyfer Ynys Echni pe bai'r cais am gymhorthdal yn llwyddiannus.
  Dywedodd Cellan Michael y bydden nhw am barhau i geisio creu partneriaethau, gwneud yr ynys yn gynaliadwy, bod yn realistig ynglŷn â'r hyn y gellir ei gyflawni gyda threftadaeth yr ynys a gwneud y mwyaf o safle eiconig ynys wedi'i lleoli oddi ar arfordir prifddinas. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet bod gan Ynys Echni gymaint i'w chynnig o ran natur, adar, gwerth hanesyddol, tyredau saethu, stori Marconi, llanw a mannau glanio; ond bod rhaid cadw cydbwysedd, bod rhaid ystyried niferoedd yr ymwelwyr a thymhorau paru er enghraifft. Ychwanegodd y byddai ymgysylltu â rhagor o ysgolion yn rhoi'r cyfle i ymestyn ymwybyddiaeth am yr ynys.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad o gyflwr dŵr croyw'r ynys.
  Atebodd y Swyddogion drwy ddweud bod problem wedi bod tua 5 mlynedd yn ôl a'u bod wedi edrych ar y posibilrwydd o greu tyllau turio ond bod hyn wedi bod yn rhy gostus; ar hyn o bryd roedd y system ddŵr yn gweithio'n iawn gyda hidlwr newydd a systemau uwchfioled ac felly'n pasio profion ansawdd dŵr; ond nad oedd creu tyllau turio wedi cael ei ddiystyru ar gyfer y dyfodol os oedd angen.

- O ran pridd wedi'i halogi, cynghorwyd yr Aelodau bod swyddogion wedi bod yn gweithio gyda'r brifysgol ond nad oeddent yn anffodus wedi symud ymlaen ar hyn.
  Oherwydd y plwm yn y pridd dydy'r ynys ddim yn gallu cynhyrchu wyau/cig ond mae'n cynnig cyfleoedd ymchwil diddorol i brifysgolion.

- Gofynnodd yr Aelodau am y diweddaraf ar gwch y Lewis Alexander. Yr ateb oedd bod y cwch yn arfer dod â grwpiau o bobl i'r ynys yn weddol hawdd ond yn anffodus nid oedd arian ar gael bellach i dalu am hynny. Roedd hi'n bwysig felly i wella cysylltiadau â chwmnïau'n cynnig teithiau masnachol i'r dyfodol.

- O ran glanfa'r hofrenyddion, dywedodd y swyddogion eu bod wedi edrych ar gyfleoedd ond nad oedd hynny wedi bod yn gadarnhaol iawn, bod gan y lanfa gytundebau gyda sefydliadau fel y BBC ac felly nad oedd hyblygrwydd i gludo teithwyr; ond roedd hyn dair blynedd yn ôl ac y gellid edrych eto ar y sefyllfa. Ychwanegodd y swyddogion – nawr bod yr RSPB gobeithio yn rhan o'r cynllun a gyda'r marchnata cynyddol fyddai hynny'n ei ddarparu, y gellid archwilio cyfleoedd i ddefnyddio hofrenyddion yn ne-orllewin Lloegr i gludo ymwelwyr, yn arbennig ym misoedd y gaeaf pan na fyddai adar yn paru. Cyfeiriwyd at brofiad Ynys Dewi sydd â chytundeb cyfyngol gyda chwmni cychod i gludo nifer cyfyngedig o ymwelwyr i sicrhau nad oes niwed i'r amgylchedd.

- O ran prydles/mynediad dŵr, dywedodd y swyddogion eu bod yn dal y brydles ar hyn o bryd ac nad oedd unrhyw awgrym na fyddai hyn yn parhau.

- Nodwyd bod ymwelwyr â'r ynys yn gorfod talu sylw i'r llanw a thrai a bod nifer o deithiau yn cael eu canslo oherwydd bod y môr yn arw.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at wirfoddolwyr sy'n gwneud gwaith cynnal a chadw ar yr ynys; dywedodd Mr Sampson bod gwirfoddolwyr yn mynd yn aml i gynnal ac ailgodi adeiladau.
  Ychwanegodd yr Aelod Cabinet ei bod yn drueni nad oedd Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol bellach yn ymwneud â'r ynys yn enwedig o ran yr adeiladau, ond bod trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda sefydliadau eraill am gymorth ac arbenigrwydd mewn adfer adeiladau a chynnal a chadw adfeilion fel yr ysbyty colera. Nodwyd o ran yr ysbyty y dylid ei reoli yn y tymor byr fel adfail ac efallai yn y tymor hir y gallai partneriaid ei adfer; fodd bynnag roedd y cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) yn £500k ac roedd angen swm saith ffigwr i adfer yr ysbyty.

- O ran y cais i'r CDL, gofynnodd yr Aelodau sut fyddai'r ynys yn cael ei marchnata a'r ateb oedd bod yr RSPB yn gweithio ar hyn o bryd ar rannau gwahanol o'r cais, a'u bod am gyfarfod cyn bo hir i drafod y dreftadaeth adeiledig, ymwelwyr, llety ar yr ynys, partneriaethau gydag ysgolion a sut mae'r ynys yn cael ei dehongli ar ac oddi arni.
  Ychwanegodd y Swyddogion bod angen sefydlu cysylltiadau gwell rhwng yr ynys a'r tir mawr, gydag arwyddion a mynediad gwell; bod swyddogion yn edrych ar Gaffi'r Morglawdd fel lle da i wneud y cysylltiad hwn.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion a'r Arweinydd am fynychu'r cyfarfod.

CYTUNWYD – Y byddai’r Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Arweinydd er mwyn cyfleu eu sylwadau a’u harsylwadau.

## 20 : BUSNES Y PWYLLGOR

Rhoddwyd rhaglen waith i’r Aelodau a gofynnwyd iddynt am eu barn am ychwanegu unrhyw bynciau eraill. Ystyriodd yr Aelodau y gellid ychwanegu pwnc ar y Castell yn y flwyddyn newydd a nodwyd bod y rhaglen waith fel y mae'n sefyll yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd o ran ychwanegu neu dynnu pynciau.

Nododd yr Aelodau bod pob gohebiaeth wedi dod i law.

## 21 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd y byddai’n rhaid newid dyddiad y cyfarfod nesaf. Byddai’r prif swyddog craffu yn dosbarthu rhestr o ddyddiadau i’r Aelodau drwy e-bost ac yn penderfynu ar ddyddiad addas.